

DOLEN Y TAB 92

4–5 Chwefror 2022

Bore Sul 6 Chwefror am 11

Oedfa gymun yng ngofal y Parchedigion Dyfrig Rees ac Eirian Rees, gyda Bethan Roberts wrth yn organ.

Bydd modd gwyllo'r oedfa'n 'fyw' ar dudalen Facebook y capel, ynghyd â recordiad yn ddiweddarach ar YouTube.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Chwefror

- 13** Y Parchedig Aled Edwards a Wyn Rees gydag Eleri Huws yn cyfeilio.
- 20** Edwyn Evans a Sylvia Davies gyda Rhiannon Humphreys yn cyfeilio.
- 27** Geraint Wyn Davies a Nia Williams gyda Sian Elin wrth yr organ.

Hefyd ddydd Sul 6 Chwefror

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal Carys Hamilton, Cwm-ann.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Rygbi – A ninnau ar gychwyn Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, cawn fwynhau emynau cyfarwydd sy'n ffefrynnau ar y meysydd rygbi ar hyd a lled Cymru.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod mis Chwefror o'r Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 8 Chwefror. Os oes unrhyw fater y carech ei godi, rhowch wybod erbyn nos Lun 7 Chwefror fan bellaf trwy e-bostio gehpengwern@yahoo.co.uk, anfon neges testun i 07710 237327 neu ffonio 01443 225205.

CAMPUS!



Grŵp y Twmiaid ar ôl iddynt gyrraedd copa'r Garth fore Sul diwethaf. Ar fore mor heulog ar ddiwedd Ionawr, doedd dim gobaith gallu sgïo cymal olaf y daith i lawr i Efail Isaf!

Croesawyd ymwelwyr blinedig iawn i'r Tabernacl fore Sul diwethaf, sef aelodau o'r Twmiaid oedd wedi codi'n gynnar i gerdded i gopa Mynydd y Garth; trwy wneud hynny roedden nhw'n cwblhau cymal olaf yr her o deithio 700 cilomedr ar y cyd, naill ai ar droed neu feic, yn ystod mis Ionawr. Roedd y pellter o 700 cilomedr yn gymesur â theithio ar hyd llwybr yr arfordir o Aberteifi i Gasgwent. Cyhoeddwyd yr her gyntaf yn blygeiniol ar Ddydd Calan gan Eleri Mai fel ffordd bleserus o godi arian i'r elusen leol *2 Wish*, ac ar yr un pryd i losgi'r calorïau wedi'r holl loddesta dros yr ŵyl. Er bod y targed yn un mor heriol, fe lwyddwyd i'w basio ymhell cyn cwblhau'r cymal olaf, er mawr lawenydd i'r criw.

Llongyfarchiadau a diolch i bob un a chwaraeodd ei ran dros yr wythnosau diwethaf wrth gerdded, rhedeg neu seiclo yn yr ymdrech i gyrraedd y nod. Diolch hefyd i aelodau a chyfeillion y Tabernacl am eu hanogaeth i'r pobl ifanc ac am eu cefnogaeth i'r apêl ariannol. Mae'n braf medru cyhoeddi mai'r swm a godwyd i'r elusen *2 Wish* mor belled yw £745.

Cylch Cadwgan

7.30 Nos Wener
11 Chwefror 2022

Myrdd o ryfeddodau – rhai hoff gerddi

Glenys M. Roberts

Trefnir gan
Gapel y Tabernacl, Efailisaf

Cysylltwch gyda capelytabernacl@gmail.com
am fanylion y ddolen i Zoom.



PIGION O'R WASG

'Mae'r ffordd rydyn ni'n arllwys cwpanaid o goffi yn y caffï yn un mor bwysig â'r ffordd rydyn ni'n arllwys cwpan ar gyfer y cymun.'

Derbyniodd Pen-rhys gryn sylw ar y cyfryngau yn ystod yr wythnos hon, yn sgil cwblhau'r gwaith o wella cyflwr llwybr y pererinion o Landaf i Ben-rhys. Roedd y daith 21 milltir yn un hynod o boblogaidd yn yr Oesoedd Canol cyn i Thomas Cromwell, yn 1538, roi gorchymyn i symud y cerflun o'r Forwyn Fair o'i safle ar y mynydd a'i llosgi. Adroddwyd peth o'r hanes yn rhifyn dydd Llun o'r *Western Mail*, ond heb gyfeirio unwaith at Eglwys Llanfair, Pen-rhys gerllaw.

Diolch byth felly i *Dechrau Canu Dechrau Canmol*, oedd hefyd yn dilyn y llwybr yn eu rhaglen nos Sul diwethaf, am ymweld â'r eglwys ar ddiwedd eu taith. I ddechrau canolbwyntiwyd ar y gwrthgyferbyniad rhwng ysblander Cadeirlan Llandaf, a moethusrwydd cartrefi yn Radyr ar ddechrau'r daith, gyda'r stad o dai cymdeithasol ar ben mynydd yn y Rhondda y gorfodwyd trigolion pentrefi cyfagos i symud yno ar ei diwedd. Yn yr 1980au roedd yr ardal hon ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan a hefyd yn ddrwg-enwog oherwydd yr adroddiadau cyson a geid am y lefel uchel o dor-cyfraith a phroblemau cyffuriau.

Wedi camu i mewn i ganolfan Llanfair a chwrdd â Sharon Rees, swyddog addysg yr eglwys ers deng mlynedd ar hugain, cawsom ddarlun llawer iawn mwy cadarnhaol o'r ardal a'i thrigolion. Tra'n cydnabod bod ei swydd yn medru bod yn heriol ar brydiau, roedd Sharon yn gweld llawer o arwyddion gobeithiol iawn, megis y twf mewn ysbryd cymunedol oedd yn gwbl absennol pan symudodd i fyw yno ar ddechrau'r 1990au. Ond yr agoriad llygad pennaf oedd ei disgrifiad o Gristnogaeth ymarferol ar waith o fewn yr eglwys, yn cynnwys gweithgareddau megis y caffï, banc bwyd, banc dillad, lle golchi dillad, clwb gwaith cartref a chlwb ieuencid. Diolch i *Dechrau Canu Dechrau Canmol* am daro i mewn i ddangos yr hyn sydd ar droed yn rhai o gapeli ac eglwysi Cymru heddiw.

I unrhyw un sydd am ddysgu mwy am y gwaith rhagorol a wneir ym Mhen-rhys, mae Sharon wedi llunio erthygl sy'n disgrifio ei gweinidogaeth yno yn y rhifyn cyfredol o'r *Cristion* (Ionawr/Chwefror 2022). Mae hi'n diweddu gyda'r dyfyniad a geir ar frig y golofn hon. Os na lwyddoch chi i weld DCDC nos Sul, caiff y rhaglen ei hailddarlledu am 11.30 bore Sul yma ac mae modd ei gwyllo hefyd ar <https://www.s4c.cymru/clc>

DIOLCH YN FAWR, UNWAITH ETO

Yn ogystal â'r casgliadau swmpus o ddanteithion a nwyddau hylendid a dderbyniwyd adeg y Nadolig, bu 2021 ar ei hyd yn flwyddyn o gyfrannu diddiwedd gan aelodau'r Tabernacl, a bydd elusennau lleol yn elwa'n fawr o'r fath haelioni.

Mae elusennau'r Amlenni Brown – Gofalwyr Ifanc RhCT, Cymorth i Ferched Cymru (RhCT), Cwtch ac Ysgol Tŷ Coch – wedi derbyn sieciau gwerth £825 yr un.

Bu'r casgliad talebau mor llwyddiannus fel bod £745 yn weddill ar ôl cyflwyno gwerth £500 o dalebau i bobl ifanc oedd yn gadael gofal, a £200 i bedair hostel. Fe fyddwn ni'n trafod yn ein cyfarfod nesa sut i ddosbarthu'r swm yma. Mae'r angen yn cynyddu drwy'r amser.

Mae'r casgliadau ariannol, a bwyd i'r ddau fanc bwyd, yn dal yn weithredol. Mae Carys yn danfon yn rheolaidd i Fanc Bwyd Salem, a byddwn yn anfon cyfraniad ariannol at Fanc Bwyd Taf Elái cyn diwedd y mis.

Mae John yn dal i dderbyn a danfon celfi, nwyddau a dillad yn benodol yn ôl y galw, a'r elusennau'n werthfawrogl tu hwnt.

**Diolch yn fawr iawn i chi i gyd!
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**

ANIMEIDDIO
Twmiaid Bach
3.30-5.00 **5.00-6.30**
Y Canolfan

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk

